Arwyr – CA5

Tasg 7: Mynegi barn

Mae'r poster propaganda ar y dde wedi chwarae ar ddihareb Gymraeg a'i newid hi er mwyn cyfleu ei neges.

Cas gŵr na charo'r wlad a'i maco.

Ystyr y ddihareb hon yw bod dyn sydd ddim yn caru'r wlad lle cafodd ei fagu yn ddyn annymunol; h.y. bod dynion 'da' yn rhai sy'n caru'r lle y cawson nhw eu magu.

Mae defnyddio diarhebion fel teitlau i erthygl neu eitem yn ffordd dda o dynnu sylw.

Mae Radio Cymru wedi gofyn i chi gyfrannu i'r gyfres 'Munud i Feddwl'.

Mewn dim ond 300 gair, rhowch eich barn yn fachog ar unrhyw bwnc llosg.

Ceisiwch ddechrau neu orffen gyda dihareb.

Dyma 10 i chi. Dewiswch un o'r rhain neu chwiliwch am un arall.

Diarhebion

1. Cas gŵr na charo'r wlad a'i maco.
2. Gorau arf, arf dysg.
3. Byr bwyll, hir alar.
4. Bach yw popeth yn ei ddechrau.
5. Gŵr dieithr yw yfory.
6. Gwyn y gwêl y frân ei chyw.
7. Gwell arfer nag athro.
8. Nid cyfoeth pob ennill.
9. Oni heuir ni fedir fyth.
10. Pawb â'i fys lle bo'i ddolur.